# Arddangos hyder cenhadol Wcráin

‘Os ydych am i rywbeth gael ei wneud, gofynnwch i berson prysur!’ Pe byddech chi’n Wcreiniad ac yn byw rywle yn Ewrop, beth fyddai’r prif bwyntiau ar eich gwefus weddigar ddiwedd Ionawr a dechrau mis Chwefror eleni? Ymbil am heddwch, eiriol dros y dioddefwyr yn y wlad, gofyn am fendith Duw ar y ffoaduriaid a llawer deisyfiad arall.

Ar wefan Ffederasiwn Bedyddwyr Ewrop, ceir lluniau cannoedd o weinidogion ac arweinwyr Wcreinaidd eraill ac adroddiad o ddwy gynhadledd, y naill yng Ngwad Pwyl yn niwedd Ionawr a’r llall yn yr Almaen ddechrau Chwefror, yn gweddïo am lwyddiant cenhadol yn Ewrop. Mae’n siŵr fod eu gweddïau’n cynnwys ystod eang o ddeisyfiadau, ond tynnu sylw at sêl genhadol y Bedyddwyr hyn a wna’r erthygl ar wefan y Ffederasiwn. Themâu’r cynadleddau oedd: ‘Peidiwch ag anghofio’ch galwedigaeth’, a ‘Cenhadu yn Ewrop’.

Roedd gan Undeb Bedyddwyr Wcráin 22 o genhadon cyn i ymosodiad Rwsia ddigwydd, ac mae’r gweinidogion Bedyddiedig sydd wedi gadael Wcráin yn derbyn bod eu gwaith yn parhau, er bod hynny mewn ardaloedd oddi allan i’w mamwlad. Nodwyd yn y ddwy gynhadledd fod aelodau Undeb Bedyddwyr Wcráin yn dymuno gweld ei gweinidogion yn dychwelyd unwaith bydd y rhyfel ar ben. Bydd eu hangen i aildanio cenhadaeth y Bedyddwyr yn y wlad, ac i gynorthwyo yn y gwaith o ddwyn pobl ynghyd ac ailadeiladu’r cymunedau yn gyffredinol, a’r eglwysi’n benodol.



Arweinwyr Undeb Bedyddwyr Wcráin yn rhoi bendith mewn cynhadledd yng Ngwlad Pwyl
(Llun drwy garedigrwydd Daniel Trusiewicz)

Tra bydd y rhyfel yn parhau, un o brif dargedau cenhadaeth Bedyddwyr Wcráin yw sefydlu eglwysi ledled Ewrop i rai sy’n medru’r iaith Wcreineg. Maent eisoes wedi sefydlu rhwydweithiau sy’n cysylltu’r ffoaduriaid gyda’i gilydd gan gynnal yr hunaniaeth gartref, a gofynnir iddynt feddwl am ffyrdd o godi arian er mwyn hyrwyddo’r gwaith o ailadeiladu’r capeli sydd wedi eu chwalu yn ystod y bomio. Gwêl Ffederasiwn Bedyddwyr Ewrop y bydd natur genhadol yr Wcreiniaid yn newid agweddau’r Undebau Bedyddiedig tuag at genhadaeth gartref a thramor. Sylweddolwyd eisoes fod fflam y ffydd Gristnogol yn tanio ffydd ar draws Ewrop, a bod Iesu yn cael ei ogoneddu tra mae’r bomiau’n tanio yn ninasoedd Wcráin.



Dros 200 o Wcreiniaid wedi ymgasglu yn yr Almaen
(Llun drwy garedigrwydd Undeb Bedyddwyr Wcráin)

## Medalau Gee 2023 – dyddiad cau enwebiadau

Bob blwyddyn cyflwynir medalau Gee i ffyddoniaid yr ysgol Sul yng Nghymru – i’r rhai sydd dros 75 oed ac wedi bod yn ffyddlon i’r ysgol Sul, un ai fel athrawon i blant ac ieuenctid neu fel athrawon a disgyblion mewn dosbarth oedolion. Yn ogystal â ffyddlondeb i’r ysgol Sul, rydym hefyd yn cynnwys dosbarthiadau Beiblaidd a grwpiau astudiaeth.

Cyflwynir y medalau yn ystod mis Medi bob blwyddyn, ac i dderbyn medal eleni bydd angen i bob ffurflen gais fod mewn llaw erbyn **30 Mehefin**. Mae manylion llawn a ffurflen gais ar gael o wefan www.ysgolsul.com.

Tybed oes yna rywrai yn eich eglwys leol chi sy’n gymwys i dderbyn y fedal eleni?

Cysylltwch ag Aled Davies: aled@ysgolsul.com am ragor o wybodaeth.